OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 574

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020

## RHAN 1

## Cyffredinol

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 12.01 a.m. ar 8 Mehefin 2020.

### Dehongli cyffredinol

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "coronafeirws" ("*coronavirus*") yw coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-Cov-2);

mae i "y Deddfau Mewnfudo" yr ystyr a roddir i "the Immigration Acts" yn adran 61 o Ddeddf Ffiniau'r DU 2007(**1**);

mae i "gwybodaeth am deithiwr" ("*passenger information") yr ystyr a roddir gan reoliad 4(1);

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw ardd, iard, tramwyfa, gris, garej, tŷ allan, neu unrhyw atodyn i fangre o'r fath;

ystyr "plentyn" ("*child*") yw person o dan 18 oed ac mae unrhyw gyfeiriad at "oedolyn" i'w ddehongli yn unol â hynny;

ystyr "swyddog mewnfudo" ("*immigration officer*") yw person sydd wedi ei benodi yn swyddog mewnfudo gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Mewnfudo 1971(**2**).

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae gan berson gyfrifoldeb am blentyn os oes gan y person—

(a) gwarchodaeth neu ofal am y plentyn, neu

(b) cyfrifoldeb rhiant am y plentyn (o fewn ystyr Deddf Plant 1989)(**3**).

(3) Yn y Rheoliadau hyn, mae i—

"yr ardal deithio gyffredin"(**4**);

---

(**1**) 2007 p. 30. Diwygiwyd adran 61 gan adran 73(5) o Ddeddf Mewnfudo 2014 (p. 22) ac adran 92(5) o Ddeddf Mewnfudo 2016 (p. 19).

(**2**) 1971 p. 77. Diwygiwyd paragraff 1 gan baragraff 3 o Atodlen 3 i Ddeddf yr Asiantaeth Diogelu Iechyd 2004 (p. 17), a chan O.S. 1993/1813.

(**3**) 1989 p. 41.

(**4**) Gweler adran 1(3). Mae'n darparu y cyfeirir at y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon gyda'i gilydd yn Neddf Mewnfudo 1971 fel "the common travel area".

“awyren”(**5**);

“llong”(**6**);

“porthladd”(**7**),

yr un ystyr ag a roddir i “the common travel area”, “aircraft”, “ship” a “port” yn Neddf Mewnfudo 1971.

(**5**) Gweler adran 33(1).
(**6**) Gweler adran 33(1).
(**7**) Gweler adran 33(1).